Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Thornhill
# Heol Hir
# Thornhill
# Caerdydd
# CF14 9LA

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Thornhill ar ystâd dai Thornhill yn sir Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae 468 o ddisgyblion ar y gofrestr, wedi'u trefnu yn 15 dosbarth. Mae dau ddosbarth fesul grŵp blwyddyn a dosbarth meithrin.

Mae gan ryw 11% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 9% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Er bod y ddau ffigur hyn wedi cynyddu yn ddiweddar, maent yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol ac ar gyfer Cymru o hyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o dreftadaeth Gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, ac nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth yn 2011. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2008.

Mae'r gyllideb unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Thornhill yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,111 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £7,890 a'r isafswm yw £2,856. Mae Ysgol Gynradd Thornhill yn safle 87 allan o'r 96 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau da erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau da mewn llafaredd, darllen a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- mae safonau a darpariaeth ar gyfer lles yn dda;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a chanddynt foesau da, ac maent yn mwynhau eu dysgu;
- mae disgyblion ag anghenion ychwanegol yn cael cymorth da ac yn gwneud cynnydd da; ac
- mae adnoddau da iawn yn amgylchedd dysgu'r ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn datblygu synnwyr clir o ddiben a chyfeiriad;
- bu gwelliannau diweddar mewn presenoldeb ac yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch na'r disgwyl;
- mae llywodraethwyr yn darparu lefel dda o her i'r ysgol;
- mae ystod addas o bartneriaethau yn cefnogi cyflawniadau disgyblion yn dda; ac
- mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'i hadnoddau i ddarparu gwerth da am arian.

Fodd bynnag:

- nid yw trefniadau hunanarfarnu presennol yn ddigon trylwyr mewn perthynas ag addysgu, cynllunio ac asesu i fynd i'r afael â'r anghysondebau ar draws yr ysgol;
- nid yw cynllunio strategol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ddeilliannau hunanarfarnu;
- caiff blaenoriaethau cenedlaethol eu rhoi ar waith yn anghyson ar draws yr ysgol; ac
- nid yw staff yn rhannu arfer orau ddigon.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn Cymraeg

A2 Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso'u medrau rhifedd

A3 Gwella ansawdd yr addysgu mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, yn enwedig wrth fodloni anghenion disgyblion mwy abl

A4 Datblygu trefniadau monitro mwy trylwyr gyda ffocws ar sicrhau cysondeb mewn addysgu a dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yn ymuno â meithrinfa'r ysgol gyda medrau datblygedig, yn enwedig mewn llafaredd. Gwnânt gynnydd da ar draws yr ysgol ac mae bron pob un ohonynt yn gadael â safonau sydd uwchlaw'r rheiny a welir yn genedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn huawdl a hyderus. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn trafod eu dysgu yn frwdfrydig. Maent yn defnyddio brawddegau cadarn ac yn defnyddio geirfa amrywiol, er enghraifft wrth ddyfeisio cwestiynau ar gyfer y gêm 'dyfalu'r rhif'. Mae disgyblion hŷn yn mwynhau esbonio effaith eu gweithredoedd, er enghraifft fel 'arweinwyr digidol, capteiniaid tai neu aelodau o'r cyngor ysgol neu'r pwyllgor eco. Maent yn addasu tôn eu sgwrs yn ôl eu cynulleidfa ac maent yn defnyddio geirfa arbenigol a soffistigedig, er enghraifft wrth esbonio manylion am y paneli solar ar do'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, neu'n uwch. Mae bron pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd da o'u gwybodaeth am y synau a wna llythrennau i ddatrys geiriau newydd. Maent yn siarad yn hyderus am lyfrau y maent wedi'u mwynhau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn eang er pleser. Maent yn mwynhau trafod eu hoff awduron a chymharu rhinweddau gwahanol nofelau. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau i frasddarllen a bwrw golwg trwy destun yn gyflym i gael gwybodaeth. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 ddefnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gasglu ac olrhain gwybodaeth mewn gwahanol bynciau. Er enghraifft, mewn gwers TGCh, defnyddiodd disgyblion y wybodaeth a gawsant o destun mewn cronfa ddata er mwyn diystyru pobl dan amheuaeth a datrys dirgelwch yn null Sherlock Holmes.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn ystod o *genres* gwahanol. Ym Mlwyddyn 1, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau ysgrifennu cynnar i greu gwahoddiadau i barti Nadolig ac mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n estynedig, er enghraifft yn ail-ddweud stori'r Nadolig. Ym Mlwyddyn 5, er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu'n sensitif am effaith dogni bwyd yn ystod adeg 'Y Blitz'. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw disgyblion yn gwneud defnydd digon da o'u medrau ysgrifennu mewn pynciau heblaw Saesneg. Y rheswm am hyn yw bod y cyfleoedd iddynt ysgrifennu'n estynedig yn gyfyngedig mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, ac felly maent yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau meddyliol da iawn mewn mathemateg. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 4 yn gwybod eu tablau yn dda a gallant alw i gof eu ffeithiau rhif yn gyflym. Gallant ddyblu a haneru rhifau a mesuriadau yn eu pen. Erbyn Blwyddyn 6, gall bron pob disgybl gyfrif gwahanol gyfrannau rhifau yn eu pen, a throi ffracsiynau yn ddegolion a chanrannau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar wybodaeth dda am briodweddau siapiau 2D, ac maent yn eu cymhwyso yn effeithiol, er enghraifft i wybod beth yw cyfesurynnau fertigau siapiau. Ym Mlwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd

da o'u medrau rhifedd mewn gwyddoniaeth, er enghraifft wrth greu graffiau llinell i ddangos y canlyniadau a gawsant o'u pecynnau ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion mewn grwpiau blwyddyn eraill yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon da mewn pynciau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau TGCh datblygedig, y maent yn eu cymhwyso yn effeithiol, er enghraifft wrth greu animeiddiadau i egluro stori. Maent yn creu taenlenni i fonitro defnydd ynni gan yr ysgol, ac yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i gofnodi llygredd sŵn mewn gwahanol leoedd yn yr ysgol.

Mae disgyblion yn datblygu medrau siarad cymwys mewn Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwrando ac yn ymateb i gyfarwyddiadau, yn defnyddio cyfarchion syml ac yn mwynhau canu caneuon Cymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg, ond nid ydynt yn hyderus i gynnwys oedolion a phlant eraill mewn sgwrs. Maent yn ei chael yn anodd ymestyn sgwrs y tu hwnt i'r ymadroddion llafar sylfaenol a ddysgwyd ganddynt eisoes. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu gydag ystod rhy gyfyngedig o batrymau brawddeg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd, datblygiad mathemategol a dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion yn 2013 yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol a'r 50% uchaf ar gyfer llythrennedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar lefel 4 yn dangos tuedd sy'n gostwng rhywfaint o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf. Yn y cyfnod diweddar, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd a Saesneg wedi symud yr ysgol o'r 50% uchaf yn 2011 i'r 50% is yn 2013. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi aros yn y 50% is. Mewn mathemateg, bu gwelliant mewn perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn 2013, gan symud yr ysgol i'r 50% uchaf. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion wedi gwella ym mhob pwnc, gan symud yr ysgol o'r 50% is yn 2011 i'r 50% uwch yn 2013, o gymharu ag ysgolion tebyg.

### Lles: Da

Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i fod yn iach a manteision ffordd weithgar o fyw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw. Dywed pob disgybl eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn yr ysgol. Mae 'arweinwyr digidol' a disgyblion eraill yn gwybod sut i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio cyfrifiaduron ar-lein.

Mae bron pob disgybl wedi'u cymell yn dda ac yn mwynhau eu dysgu. Maent yn cymryd rhan yn dda mewn llawer o agweddau gwahanol ar fywyd yr ysgol, er enghraifft mewn clybiau ar ôl yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos lefelau da o barch, gofal a phryder am bobl eraill ac maent yn foesgar, cyfeillgar a chwrtais o amgylch yr ysgol. Mae ymddygiad disgyblion yn dda ar y maes chwarae, o amgylch yr ysgol ac mewn gwersi.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd eu rolau o ddifrif. Mae'r cyngor ysgol yn gwneud penderfyniadau am wella amgylchedd yr ysgol, er enghraifft i wella'r ddarpariaeth o ran toiledau a dylunio'r marciau ar y maes chwarae. Mae'r cyngor eco wedi bod yn allweddol yn datblygu ymagwedd yr ysgol at gynaliadwyedd a lleihau ôl-troed carbon yr adeilad.

Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi gwella, gan symud yr ysgol o'r 50% is i'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb yn ddiweddar wedi digwydd o ganlyniad i ymyriadau wedi'u targedu'n dda gan yr ysgol i bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb a gwobrwyo disgyblion am lefelau presenoldeb uchel.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae athrawon yn cynllunio ar y cyd i ddatblygu profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi cyflwyno dull masnachol yn seiliedig ar destun o ddarparu strwythur gwell ar gyfer cynllunio athrawon. Mae'r ymwelwyr a'r ymweliadau ysgol niferus, er enghraifft i Gastell Caerdydd, a gweithgareddau'r ysgol goedwig, yn gwella dysgu disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang iawn o glybiau allgyrsiol, sy'n cynnwys chwaraeon, gweithgareddau awyr agored a chlwb dringo. Mae'n darparu ystod dda o weithgareddau a chyfleoedd diwylliannol hefyd i ddysgu ieithoedd eraill.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd, darllen, ysgrifennu a TGCh disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw pob un ohonynt yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddefnyddio'u medrau rhifedd mewn meysydd pwnc eraill. Mewn rhai dosbarthiadau, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn pynciau heblaw Saesneg. Ym mwyafrif y dosbarthiadau, mae gweithgareddau cynlluniedig yn herio dysgwyr o bob gallu yn dda, ond nid yw pob gwers yn darparu lefel ddigon uchel o her yn gyson ar gyfer dysgwyr mwy abl.

Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg ym mlynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen, lle mae staff yn gwneud ymdrech gydwybodol i ddefnyddio cymaint o Gymraeg achlysurol ag y bo modd. Nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau yn Gymraeg yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o Gymru. Er enghraifft, mae ymweliadau â Bae Caerdydd a'r Pwll Mawr yn gwella dysgu disgyblion, ac mae ymweliadau gan gerddorion a chyfranogiad disgyblion mewn cystadlaethau, fel yr Eisteddfod, yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd yn llwyddiannus iawn trwy waith y pwyllgor eco ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gadarn o faterion amgylcheddol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ymwybyddiaeth gystal o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

## Addysgu: Digonol

Mae mwyafrif yr addysgu yn ddifyr ac yn cefnogi cynnydd disgyblion yn dda. Yn y gwersi hyn, mae rhediad y dysgu yn dda ac mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall pob disgybl unigol ei gyflawni. Mae athrawon yn defnyddio cwestiynau dethol. Maent yn teilwra'r tasgau ar y lefel gywir i ddarparu ar gyfer anghenion gwahanol ddisgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn effeithiol iawn wrth helpu disgyblion i ddysgu. Mae oedolion yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw tasgau'n rhoi digon o her i ddisgyblion mwy abl. Nid yw rhai athrawon yn gwneud defnydd digon da o'u hasesiadau o'r hyn y gall disgyblion ei wneud er mwyn gweddu'r gweithgaredd i anghenion dysgu'r disgyblion. Mae eu disgwyliadau o'r hyn y gall y disgyblion mwyaf abl ei gyflawni yn rhy isel. Yn y gwersi hyn, mae'r dysgu'n symud yn rhy araf.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn ddiwyd, gan roi canmoliaeth a gwobrwyo ymdrech. Mewn rhai dosbarthiadau, mae athrawon yn rhoi sylwadau priodol i ddisgyblion i'w helpu i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r arfer dda hon yn gyson ar draws yr ysgol. Ceir tystiolaeth gyfyngedig o ddisgyblion yn gweithredu yn unol â'r sylwadau hyn i wella'u dysgu a'u dealltwriaeth. Mae arweinwyr wedi cyflwyno system asesu ac olrhain yn ddiweddar i fesur cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i athrawon allu defnyddio'r system hon i nodi ble mae cynnydd yn araf a chymryd camau priodol o ganlyniad.

Mae asesiadau athrawon o safonau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyffredinol gywir ar y lefel ddisgwyliedig. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth reolaidd i rieni am gyflawniadau ac ymddygiad eu plentyn. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni gofynion statudol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r cymorth ar gyfer datblygu iechyd a lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth dda a chyfrifoldeb ar y cyd am ofal, cymorth ac arweiniad pob disgybl. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn barod i ddysgu. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer cyd-addoli dyddiol. Mae'r profiadau dysgu, gan gynnwys ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn cynllunio darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn ymyrryd yn gynnar i nodi unrhyw ddisgyblion ag anghenion penodol ac maent yn darparu cymorth effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o strategaethau i sicrhau bod pob disgybl yn gallu manteisio ar y cwricwlwm cyfan. Mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion trwy gyflwyno rhaglenni wedi'u teilwra'n benodol. O ganlyniad, mae disgyblion sy'n cael ymyriadau yn gwneud cynnydd da. Mae athrawon, rhieni a disgyblion yn cymryd rhan mewn paratoi cynlluniau addysg unigol y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Fodd bynnag, er bod adolygiadau yn ystyried y cynnydd a wna disgyblion yn erbyn ystod o brofion a mesurau, nid ydynt yn cofnodi'r cynnydd yn erbyn targedau unigol disgyblion yn ddigon clir bob amser.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol, fel gwasanaethau lleferydd ac iaith a'r seicolegydd addysg, i fanteisio ar gymorth arbenigol i ddisgyblion pan fydd angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a hapus. Mae'n hyrwyddo cyfrifoldeb ac ymdrech unigol yn dda. Mae disgyblion yn datblygu goddefgarwch a pharch at ei gilydd. Gall pob disgybl fanteisio ar bob agwedd ar y cwricwlwm ac ar ystod eang y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir. Mae'r ysgol yn trin pob disgybl yn deg ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i gymryd rhan ym mywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft i gynrychioli eu cyfoedion yn y pwyllgorau disgyblion amrywiol yn yr ysgol.

Mae adeiladau modern yr ysgol yn darparu lle ysogol i ddysgu, a gynhelir yn dda. Ceir ystod dda a nifer ddigonol o adnoddau o ansawdd uchel, yn enwedig llyfrau darllen, ac mae cyflenwad da o lyfrau yn y llyfrgell. Mae'r adeilad y gwnaed estyniad arno yn ddiweddar yn eang ac mae'r adeilad wedi'i addurno'n dda. Mae'r amgylchedd awyr agored eang yn ddiddorol ac amrywiol ar gyfer disgyblion ac mae'n cynnwys pwll, ardal ysgol goedwig ac ystod dda o offer chwarae.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi gwella ystod o systemau rheoli. Mae wedi diffinio rolau a chyfrifoldebau staff yn glir, er enghraifft o ran egluro rolau a chyfrifoldebau cynorthwywyr addysgu. Mae wedi adeiladu ar allu arweinyddiaeth presennol yr ysgol ac wedi sefydlu uwch dîm arwain effeithiol. Mae uwch arweinwyr yn dangos dealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol wedi sefydlu ei nodau yn llwyddiannus ac mae'r pennaeth wedi rhannu'r rhain yn effeithiol gyda chymuned yr ysgol gyfan.

Ceir synnwyr datblygol o strategaeth, diben a chyfeiriad ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn gweithio'n dda fel tîm, ac ar y cyd maent wedi dechrau gwella deilliannau disgyblion, er enghraifft wrth gynyddu cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 5 sy'n uwch na'r disgwyl, a sefydlu rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o fod ar ei hôl hi yn eu gwaith. Mae gwaith uwch arweinwyr mewn rheoli perfformiad aelodau eraill o staff yn bodloni gofynion mewn llawer o ffyrdd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar o hyd i allu gweld effaith lawn eu gwaith wrth fynd i'r afael ag anghysondebau yn ansawdd yr addysgu.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw addas i gyflawni llawer o flaenoriaethau cenedlaethol yn ei chynllunio ar gyfer gwella, er enghraifft rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, a gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.

Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol ac maent yn darparu cymorth a her i'r ysgol yn gynyddol. Maent yn defnyddio data perfformiad yn dda i ddadansoddi cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent wedi arfarnu eu heffaith eu hunain ac wedi cynyddu eu hymglymiad wrth bennu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol trwy waith is-bwyllgorau'r cwricwlwm, er enghraifft i wella'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth wedi ystyried safbwyntiau staff, rhieni, llywodraethwyr ac arweinwyr wrth bennu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol. Ar y cyd ag uwch arweinwyr, mae'n dadansoddi data perfformiad i fonitro cynnydd yr ysgol. Gwnaed gwelliannau yn ddiweddar, er enghraifft o ran gwella cyfraddau presenoldeb a gwella'r ddarpariaeth a'r safonau mewn TGCh.

Fodd bynnag, nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro addysgu a dysgu yn ddigon trylwyr. Er bod uwch arweinwyr yn arsylwi gwersi, ni roddwyd sylw digonol i arfarnu cysondeb ac ansawdd yr addysgu ar draws y gwahanol ddosbarthiadau yn gywir. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn mynd i'r afael â'u canfyddiadau monitro yn ddigon trylwyr bob amser. Nid ydynt yn elwa'n llawn ar gyfleoedd i rannu'r arfer orau mewn ystafell ddosbarth ymhlith pob aelod o staff.

Mae uwch arweinwyr wedi dechrau ymgymryd ag agweddau ar hunanarfarnu ond nid yw cynllunio strategol yn rhoi ystyriaeth ddigon da i ddeilliannau'r systemau monitro. Mae'r cynllun datblygu ysgol wedi nodi targedau perthnasol a phriodol ac mae mwyafrif ohonynt yn cynnwys meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar welliannau mesuradwy yng nghynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi defnyddio cymorth gan yr awdurdod lleol yn effeithiol i helpu i arfarnu ei pherfformiad. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff yn asesu nac yn myfyrio ar eu perfformiad eu hunain yn ddigon gonest a thrylwyr. O ganlyniad, er y bu gwelliannau mewn safonau ac yn ansawdd y ddarpariaeth yn ddiweddar, mae gormod o anghysondebau o hyd yn ansawdd yr addysgu, defnyddio asesu a safonau ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn ystod eang o bartneriaethau sy'n gwella'r cyfleoedd dysgu i ddisgyblion. Ceir cysylltiadau da â'r gymuned. Mae disgyblion yn perfformio mewn digwyddiadau lleol fel cynnau'r goleuadau Nadolig ac yn defnyddio cyfleusterau lleol fel y ganolfan hamdden. Mae cysylltiadau â sefydliadau chwaraeon a chanolfan achubwyr bywyd yn y Barri wedi galluogi disgyblion i ddatblygu ac ymestyn eu medrau chwaraeon yn dda. Mae ymwelwyr â'r ysgol, fel clerigwyr lleol, yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'u cymuned. Mae cyswllt a chyfathrebu da gyda rhieni, ac mae arweinwyr yn gwerthfawrogi eu barn. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cefnogi'r ysgol yn dda ac mae'n codi arian sylweddol i helpu'r ysgol i brynu llyfrau darllen ac offer TGCh, er enghraifft, a datblygu tir yr ysgol.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n dda ag ysgolion eraill yn y clwstwr lleol o ysgolion cynradd.  Er enghraifft, mae athrawon yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau cysondeb yng ngwaith asesedig disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.  Mae cysylltiadau cryf â’r ysgol uwchradd leol, gan ddarparu trefniadau pontio effeithiol, yn enwedig ar gyfer disgyblion a allai fod yn tangyflawni.  Mae hyn yn sicrhau parhad disgyblion mewn dysgu a lles yn dda.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau yn briodol ac yn ystyried effaith gwariant yn ofalus.  Mae digon o athrawon a staff cymorth cymwys i fodloni anghenion dysgwyr.  Defnyddir staff addysgu a staff cymorth yn briodol.  Mae staff cymorth wedi cael cyflenwad priodol o hyfforddiant i gyflwyno rhaglenni ymyrraeth effeithiol a rhoi cymorth bugeiliol i bob disgybl.

Mae pob aelod o staff yn elwa ar gyfleoedd addas ar gyfer datblygiad proffesiynol trwy ystod o weithgareddau hyfforddi.  Mae hyn yn arwain at welliannau yn neilliannau disgyblion ar y cyfan.  Mae athrawon yn gwneud defnydd da o’u hamser penodedig ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.  Maent yn gweithio’n dda gydag ysgolion eraill yn y clwstwr lleol.

Mae’r holl gynlluniau gwella yn nodi costau perthnasol ac mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn eu harfarnu’n briodol o ran eu gwerth am arian.  At ei gilydd, mae rheolaeth ariannol gadarn yn yr ysgol.  Mae gwariant sylweddol ar weithgareddau awyr agored anturus, TGCh a’r llyfrgell wedi’i hadnewyddu wedi arwain at welliannau amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Yng ngoleuni’r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2012 a 2013, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, ysgolion eraill yn yr un teulu ac ysgolion cynradd yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn llythrennedd, mae perfformiad disgyblion yn 2013 ychydig yn is nag yn 2012. Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, mae cyflawniad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig wedi gwella, gan symud yr ysgol o'r 50% is yn 2012 i'r 25% uchaf yn 2013 o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu, o gymharu ag ysgolion tebyg, roedd cyfran disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r deilliant 6 uwch na'r disgwyl yn amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf yn 2012 a'r 50% uwch yn 2013. Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni deilliant 6 mewn datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol uwchlaw cyfartaledd y teulu. Mewn datblygiad mathemategol ar y lefel uwch, mae cyflawniad disgyblion wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, roedd cyflawniad disgyblion yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf yn 2012. Symudodd i'r 25% uchaf yn 2013.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu mewn Saesneg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd. Mewn mathemateg, roedd uwchlaw cyfartaledd y teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 dros y tair blynedd diwethaf wedi gostwng, gan symud yr ysgol o'r 50% uwch i'r 50% is mewn Saesneg ac yn y dangosydd pwnc craidd. Mewn gwyddoniaeth, mae'r ysgol yn parhau i fod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 50% is.

Ar y lefelau uwch na'r disgwyl, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion wedi gwella, gan symud yr ysgol o'r 50% is i'r 50% uwch ym mhob pwnc. Yn 2013, roedd canlyniadau ar y lefel uwch na'r disgwyl uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ond yn is mewn Saesneg. Mae canlyniadau ar y lefel uwch na'r disgwyl wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf o fod islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae merched fel grŵp yn cyflawni'n well na bechgyn ar y cyfan. Fodd bynnag, er bod amrywiadau o ran carfanau, dros gyfnod, mae merched a bechgyn yn cyflawni cystal â'i gilydd yng nghyfnod allweddol 2 ym mhob maes heblaw ysgrifennu, lle nad yw bechgyn yn cyflawni cystal ar y cyfan. Yn aml, nid yw disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | | Number of responses Nifer o ymatebion | | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | | 105 | | 105<br>100% | 0<br>0% | | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | | | 98% | 2% | | |
| The school deals well with any bullying. | | 105 | | 96<br>91% | 9<br>9% | | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | | | 92% | 8% | | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | | 105 | | 105<br>100% | 0<br>0% | | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | | | 97% | 3% | | |
| The school teaches me how to keep healthy | | 105 | | 97<br>92% | 8<br>8% | | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | | | 98% | 2% | | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | | 105 | | 97<br>92% | 8<br>8% | | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | | | 96% | 4% | | |
| I am doing well at school | | 105 | | 104<br>99% | 1<br>1% | | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | | | 96% | 4% | | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | | 105 | | 104<br>99% | 1<br>1% | | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | | | 99% | 1% | | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | | 105 | | 101<br>96% | 4<br>4% | | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | | | 98% | 2% | | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | | 105 | | 90<br>86% | 15<br>14% | | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | | | 91% | 9% | | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | | 104 | | 94<br>90% | 10<br>10% | | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | | | 95% | 5% | | |
| Other children behave well and I can get my work done. | | 105 | | 72<br>69% | 33<br>31% | | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | | | 77% | 23% | | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | | 104 | | 92<br>88% | 12<br>12% | | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | | | 84% | 16% | | |

# Ymatebion i’r holiadur i rieni

mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | | Number of responses / Nifer o ymatebion | | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | | 143 | | 94<br>66% | 45<br>31% | 2<br>1% | 0<br>0% | 2 | | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | | | 63% | 33% | 3% | 1% | | | |
| My child likes this school. | | 142 | | 106<br>75% | 36<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | | | 72% | 26% | 1% | 0% | | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | | 141 | | 98<br>70% | 42<br>30% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | | | 72% | 26% | 1% | 0% | | | |
| My child is making good progress at school. | | 142 | | 84<br>59% | 48<br>34% | 8<br>6% | 1<br>1% | 1 | | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | | | 61% | 34% | 3% | 1% | | | |
| Pupils behave well in school. | | 142 | | 47<br>33% | 78<br>55% | 4<br>3% | 0<br>0% | 13 | | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | | | 45% | 46% | 4% | 1% | | | |
| Teaching is good. | | 143 | | 77<br>54% | 59<br>41% | 2<br>1% | 1<br>1% | 4 | | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | | | 60% | 35% | 2% | 0% | | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | | 143 | | 87<br>61% | 53<br>37% | 3<br>2% | 0<br>0% | 0 | | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | | | 63% | 34% | 1% | 0% | | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | | 138 | | 46<br>33% | 65<br>47% | 17<br>12% | 6<br>4% | 4 | | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | | | 47% | 40% | 6% | 1% | | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | | 143 | | 69<br>48% | 60<br>42% | 6<br>4% | 1<br>1% | 7 | | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | | | 58% | 34% | 3% | 1% | | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | | 143 | | 66<br>46% | 64<br>45% | 3<br>2% | 1<br>1% | 9 | | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | | | 59% | 36% | 2% | 0% | | | |
| My child is safe at school. | | 142 | | 88<br>62% | 54<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | | | 66% | 31% | 1% | 0% | | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | | 135 | | 55<br>41% | 46<br>34% | 12<br>9% | 1<br>1% | 21 | | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | | | 50% | 34% | 4% | 1% | | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 142 | 47 | 74 | 20 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 33% | 52% | 14% | 1% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 140 | 73 | 51 | 14 | 1 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 52% | 36% | 10% | 1% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 141 | 42 | 59 | 12 | 5 | 23 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 30% | 42% | 9% | 4% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 141 | 73 | 57 | 3 | 1 | 7 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 52% | 40% | 2% | 1% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 128 | 42 | 41 | 8 | 2 | 35 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 33% | 32% | 6% | 2% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 140 | 59 | 64 | 12 | 0 | 5 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 42% | 46% | 9% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 141 | 82 | 56 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 58% | 40% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Fiona Arnison | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| Janet Elizabeth Rowlands | Arolygydd Tîm |
| Catherine Anne Barnett | Arolygydd Tîm |
| Deirdre Mary Emberson | Arolygydd Lleyg |
| Phillip Thomas Brookman | Arolygydd Cymheiriaid |
| Paul Tucker | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.